**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 MEHEFIN, 2021**

**CYNHALIWYD Y CYFARFOD DROS ZOOM**

**Yn bresennol** Cyng. Mark Davies (cadeirydd), Cyng. Emyr Jones, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Owenna Davies, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Sharon Thomas

**Ymddiheuriadau** Cyng. Teifi Evans; Cyng. Julie Davies

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng. Julie Davies a Chyng. Teifi Evans. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Mai | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Mai. | | |
| | | **Materion yn Codi** – Gofynnodd Cyng. Emyr Jones enw pwy ddylai ymddangos ar frig Hysbysiadau'r Agenda a osodir yn yr hysbysfyrddau, ac sy'n cael eu hanfon ymlaen at bob Cynghorydd cyn pob cyfarfod misol. Esboniodd y Clerc ei bod hi wedi dilyn yr hyn a oedd ar y gliniadur yn barod. Trafodwyd y mater a chytunwyd y dylai manylion cyswllt y Clerc ymddangos ar yr hysbysiad o'r Agenda, a hefyd, manylion y Cadeirydd presennol. Dylid cynnwys rhif ffôn y Clerc ar yr hysbysiadau hefyd gan mai'r Clerc yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer y Cyngor Cymuned. Caiff hyn ei ddiwygio gan y Clerc. | **Clerc** | |
| 4. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Owenna Davies bod cofnodion mis Mai yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Sharon Thomas. | | |
| 5. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis bod y bont ar y ffordd ym Maesllyn bellach ar gau er mwyn gwneud gwaith trwsio arni.<br>Adroddodd hefyd nad oedd sbwriel wedi cael ei gasglu mewn rhai pentrefi yn y gymuned wythnos diwethaf, a'i fod wedi adrodd wrth CLIC am y mater, ac y dywedwyd wrtho y bu problem dechnegol. Fodd bynnag, casglwyd y sbwriel ar y dydd Sadwrn dilynol.<br>Yn ogystal, diolchodd y Clerc i Gyng. Lewis am drefnu'r cinio blynyddol yn La Calabria, er na wnaethpwyd unrhyw arweithiau ac nid oedd cadwyn y Cadeirydd wedi cael ei throsglwyddo'n ffurfiol ychwaith. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, y gobaith yw y bydd modd trefnu'r trosglwyddiad swyddogol yn fuan. | | |

6. Gohebiaeth

**Un Llais Cymru** – cafwyd neges e-bost ynghylch cwrs am Brynu Gorfodol.

Cafwyd neges e-bost hefyd am gyrsiau ar-lein, a anfonwyd ymlaen at yr holl Gynghorwyr cyn y cyfarfod. Byddai'n arfer da dilyn rhai o'r cyrsiau sydd o ddiddordeb i'r Cynghorwyr, ond byddai'n well eu cyflawni mewn trefn yn ôl y Modiwlau. Mae Modiwl 1 Y Cyngor ar gael ac mae'n costio £30. Dylai'r holl Gynghorwyr gadw golwg ar y cyrsiau sydd ar gael, gan gysylltu â'r Clerc os oes ganddynt ddiddordeb mewn mynychu cwrs ar-lein yn y dyfodol.

Yn ogystal, cafwyd neges e-bost yn nodi manylion Hwyl yr Haf gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn ein hysbysu y gallem anfon manylion unrhyw ddigwyddiadau a drefnir yn ein cymuned ymlaen atynt, ac y byddent yn hysbysebu'r digwyddiad ar eu gwefan.

7. Cynllunio

Ni chafwyd unrhyw Geisiadau Cynllunio.

8. Ariannol

Ymchwiliad Archwilio – rydym yn aros am ateb ac ymateb gan Archwilio Cymru o hyd.
Gorchymyn Banc – Adroddodd y Clerc ei bod hi wedi mewngofnodi i wasanaethau ar-lein NatWest, ond nad oedd yn gallu lawrlwytho'r ffurflenni Gorchymyn gan nad oedd y gliniadur yn caniatáu iddi wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y Clerc wedi darllen y nodiadau esboniadol a byddai angen i bob llofnodwr newydd lenwi Ffurflen y Gorchymyn eu hunain, gan nodi eu manylion personol eu hunain, a'i chyflwyno i NatWest ar-lein. Bydd y Clerc yn anfon manylion y cyfrif ymlaen at Gyng. Mark Davies a bydd ef yn ceisio llenwi'r ffurflen.

| | |
|---|---|
| **Taliadau** | HMRC - £42.40 |
| | Cyflog y Clerc - £170.00 |

Bydd Cynghorwyr Owenna Davies a Maldwyn Lewis yn llofnodi'r sieciau hyn. Bydd y Clerc yn trefnu hyn gyda nhw.

9. Materion Ardal ffôn

**<u>Bwlch-y-groes</u>** – roedd pibell ddŵr wedi byrstio ar y ffordd yn arwain at Dre-groes. Roedd Cyng. Mark Davies wedi cael nifer o alwadau am y mater, ac er bod y Bwrdd Dŵr wedi dod allan i ddelio â'r broblem, oherwydd ei bod yn benwythnos gŵyl y banc, roedd y broblem yn parhau ac roedd dŵr yn rhedeg allan i'r ffordd fawr ac i lawr y ffordd tuag at Dre-groes. Mae'r ffordd sy'n arwain at Dre-groes bellach ar gau. Adroddir am y mater ar CLIC. **Clerc**

**<u>Ffostrasol</u>** – chwyn yn tyfu ar y palmentydd. Mae'r broblem yn llawer gwaeth eleni nag yr oedd y llynedd ac mae'r palmentydd yn cael eu difrodi. Adroddir am y mater ar CLIC. **Clerc**

**<u>Rhydlewis</u>** – Adroddodd Cyng. Ceri Jones bod cangen fawr arall wedi cwympo ger Neuadd Hawen.
Yn ogystal, adroddodd Cyng. Jones bod sbwriel, yn enwedig poteli a chaniau cwrw gwag yn cael eu taflu o gerbydau ar y ffordd i lawr o Benrhiwpâl i Rydlewis, a bod rhai o'r rhain yn glanio yng nghaeau

ffermwyr, ac fe allent beri difrod i beiriannau fferm a niweidio anifeiliaid fferm.

**<u>Coed-y-bryn</u>** – Unwaith eto, cwynodd Cyng. Emyr Jones am y sbwriel sy'n cael ei daflu o gerbydau.

Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Maldwyn Lewis ei fod wedi cael galwadau ffôn niferus wythnos diwethaf oherwydd y ddamwain angheuol ar brif ffordd yr A478 yn Nhan-y-groes, a'r gwyriad traffig o ganlyniad, wrth i bobl gwyno am gyflymder rhai o'r cerbydau wrth iddynt yrru trwy'r pentrefi gwledig. Nododd Cyng. Owenna Davies ei bod hi'n trefnu deiseb ar gyfer y pentrefi ac y byddai hon yn barod erbyn y cyfarfod nesaf, a gan bod y cyfyngiadau'n cael eu llacio nawr, y gobaith yw y byddai modd mynd â'r ddeiseb o gwmpas y pentrefi gwledig yn gofyn am weithredu mesurau er mwyn cyfyngu ar y cyflymder.

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 6 GORFFENNAF 2021 am 7.30 p.m., unwaith eto dros Zoom.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 8.40 p.m. |
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Cynghorydd Sir newydd<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwiliad<br>Gorchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br>Cynllunio'r gyllideb<br>Materion Ardal<br>Trafodaeth ynghylch cyfyngiad cyflymder ym Mhenrhiwpâl<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 6 GORFFENNAF, 2021 am 7.30 p.m. dros ZOOM** |